Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 676 (Cy.73)

PYSGODFEYDD, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	- -	*12 Mawrth 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(1), 6(1) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 1967, p.84. *Gweler* adran 22(2)(a) i gael y diffiniad o "the Ministers", fel y'i diwygiwyd gan adrannau 19(2)(d) a 45(b) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29). Amnewidiwyd adran 5(1) gan adran 22(1) o Ddeddf 1981. Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), Atodlen 1, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgota 1976 (p.86), Atodlen 2, paragraff 16(1). Diwygiwyd adrannau 6(1) a 15(3) gan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820), Atodlen 2, paragraff 43(2) a (6) yn y drefn honNo. Addaswyd adrannau 5(1) a 6 o ran eu heffaith gan adran 33(1) o Ddeddf 1981.

(**2**) Trosglwyddodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) holl swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan y Ddeddf hon (ac eithrio swyddogaethau'r Bwrdd Masnach mewn perthynas ag adran 8) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru.